

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	7 Mehefin 2021
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - THE VENU, PWLLHELI
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Venu, Station Square, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5HG gan yr ymgeisydd James Edward Rowley. Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded i eiddo oedd yn arfer bod yn glwb nos a bwyty trwyddedig hyd yn ddiweddar.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol, cerddoriaeth fyw ac wedi recordio, dangos chwaraeon gwerthiant alcohol a lluniaeth hwyr y nos, a cherddoriaeth byw ar yr eiddo, a cherddoriaeth wedi recordio ar, ac oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd sylwadau ar y cais, a chytunodd yr ymgeisydd i gynnwys amodau ychwanegol mewn perthynas â theledu cylch cyfyng (TCC) ar gais yr Heddlu. Ni dderbyniwyd sylwadau na gwrthwynebiad i'r cais fel arall; ac mae'r cais yn adlewyrchu'r hyn oedd wedi ei ganiatáu ar y drwydded eiddo oedd yn bodoli yn flaenorol.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

Oriau Agor / Opening Hours:	Dydd Sul/Sunday	08:00	-	03:00
	Dydd Llun/Monday	08:00	-	03:00
	Dydd Mawrth/Tuesday	08:00	-	03:00
	Dydd Mercher/Wednesday	08:00	-	03:00
	Dydd Iau/Thursday	08:00	-	03:00
	Dydd Gwener/Friday	08:00	-	03:00
	Dydd Sadwrn/Saturday	08:00	-	03:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG			
Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do thu allan :: Indoors and outdoors	Dydd Sul/Sunday	08:00	-	02:45
	Dydd Llun/Monday	08:00	-	02:45
	Dydd Mawrth/Tuesday	08:00	-	02:45
	Dydd Mercher/Wednesday	08:00	-	02:45
	Dydd Iau/Thursday	08:00	-	02:45
	Dydd Gwener/Friday	08:00	-	02:45
	Dydd Sadwrn/Saturday	08:00	-	02:45

<p>Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored : Indoors and Outdoors</p>	<p>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 02:45 Dydd Llun/Monday 08:00 - 02:45 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 02:45 Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 02:45 Dydd Iau/Thursday 08:00 - 02:45 Dydd Gwener/Friday 08:00 - 02:45 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 02:45</p>
<p>Digwyddiadau Chwaraeon dan do/Indoor Sporting Events:</p>	<p>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 23:45 Dydd Llun/Monday 08:00 - 23:45 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 23:45 Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 23:45 Dydd Iau/Thursday 08:00 - 23:45 Dydd Gwener/Friday 08:00 - 23:45 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 23:45</p>
<p>Perfformiadau Dawns/Performance of Dance:</p>	<p>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 02:45 Dydd Llun/Monday 08:00 - 02:45 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 02:45 Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 02:45 Dydd Iau/Thursday 08:00 - 02:45 Dydd Gwener/Friday 08:00 - 02:45 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 02:45</p>
<p>Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments:Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors</p>	<p>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 02:30 Dydd Llun/Monday 08:00 - 02:30 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 02:30 Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 02:30 Dydd Iau/Thursday 08:00 - 02:30 Dydd Gwener/Friday 08:00 - 02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 02:30</p>
<p>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises</p>	<p>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 02:30 Dydd Llun/Monday 08:00 - 02:30 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 02:30 Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 02:30 Dydd Iau/Thursday 08:00 - 02:30 Dydd Gwener/Friday 08:00 - 02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 02:30</p>

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir System TCC, a bydd recordiadau o droseddau ar gael am 30 diwrnod
- Fe fydd y staff yn helpu cwsmeriaid i wneud penderfyniadau doeth mewn perthynas â chryfder a mesur diodydd sy'n cynnwys alcohol er mwyn annog yfed cyfrifol
- Fe fydd polisi o beidio goddef cyffuriau o gwbl
- Fe fydd goruchwylwyr drysau sy'n drwyddedig gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) yn cael eu defnyddio pan fo angen
- Fe fydd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd yn aelod gweithredol o'r Cynllun Pubwatch lleol
- Fe fydd staff yn cael eu hyfforddi mewn materion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w dyletswyddau
- Fe fydd staff yn cael eu hyfforddi beth i'w wneud os oes argyfwng tân
- Fe gynhelir asesiadau risg tân reolaidd
- Fe anelir i beidio ag amharu ar y gymuned leol mewn perthynas ag atal niwsans cyhoeddus
- Fe fydd cwsmeriaid yn cael eu hannog i adael yn ddistaw
- Ni fydd cwsmeriaid yn cael mynd a gwydrau allan o'r eiddo
- Fe ddarparir llecyn ysmegu tu allan mewn lleoliad na fydd yn amharu ar breswylwyr lleol
- Cynhelir polisi her 25 gwerthiant alcohol ac anogir yfed yn gyfrifol, ac fe ofynnir am brawf oedran
- Fe fydd staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol gyda chofnodion a manylion yr hyfforddiant yn cael ei gadw.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Cyngor Tref Pwllheli	Dim gwrthwynebiad
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau ac amodau

3.1 Heddlu Gogledd Cymru

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi cytuno i dderbyn amodau ychwanegol mewn perthynas â Gweithredu Teledu Cylch Cyfyng, gweler manylion llawn a geiriad yr amodau ychwanegol yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.